20/12/2023

# DEFNYDDIO CESTYLL BOWNSIO YN Y NEUADD

## Yswiriant– yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud.

**Mae cestyll bownsio a dyfeisiadau eraill sydd wedi eu llenwi ag aer wedi eu heithrio o yswiriant y Neuadd.** Felly os ydych chi'n cael castell bownsio neu ddyfais aer arall yn eich parti, **mae angen ichi wneud yn siŵr fod dau fath o yswiriant gennych:**

1) Bydd angen i'r person sy'n goruchwylio'r offer, mae'n debyg mai chi yw hwnnw, gael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, fel sicrwydd rhag ofn i unrhyw ddamwain ddigwydd. Efallai bod eich yswiriant cartref yn barod yn eich diogelu. Gwelwch y rhestr isod am fanylion.

2) Mae angen i berchenog yr offer gael yswiriant mewn grym sy'n gadael i eraill ei ddefnyddio. Bydd gan gwmnïau cyfrifol hyn a byddant yn dweud hynny ar eu gwefan.

Mae'n rhaid i'r Neuadd **dderbyn tystiolaeth gennych ddim hwyrach na 7 diwrnod cyn y parti/digwyddiad** bod y ddau fath o yswiriant mewn grym cyn y gellir gadael i unrhyw gastell bownsio neu offer aer arall gael ei ddefnyddio yno.

**Felly er mwyn osgoi siom, cwblhewch y rhestr wirio isod.**

## RHESTR WIRIO AR GYFER PAWB SY'N DEFNYDDIO CASTELL BOWNSIO NEU OFFER AER ARALL YN Y NEUADD

- Dw i wedi hysbysu'r Neuadd (drwy'r ffurflen fwcio neu e-bost diweddarach) y bydd castell bownsio neu offer aer arall gennym.

- Dydi'r castell bownsio neu offer aer dw i wedi ei logi ddim yn uwch na 3 medr (10 troedfedd).

- **Dw i wedi e-bostio i post@neuaddrhiwlas.cymru(o leiaf 7 diwrnod cyn y parti/digwyddiad)** gyda dolen i'r dudalen berthnasol ar wefan y cwmni llogi, neu gyda thystiolaeth arall, yn dangos fod gan y cwmni yswiriant mewn grym sy'n gadael i eraill ddefnyddio'r offer.

- **Dw i wedi e-bostio i post@neuaddrhiwlas.cymru(o leiaf 7 diwrnod cyn y parti/digwyddiad)** gyda thystiolaeth, fel y person sy'n goruchwylio'r offer, fod gennyf yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn grym.

  *Os mai parti preifat yw hwn a'ch bod yn ei oruchwylio eich hun, gwiriwch gydag yswirwyr eich cartref. Efallai y bydd hyn wedi ei gynnwys o dan adran atebolrwydd personol y polisi. Os nad yw, mi ddylen nhw fedru trefnu yswiriant ar gyfer diwrnod y digwyddiad. Fel arall, gall y cwmnïau canlynol ddarparu yswiriant - gadewch inni wybod os dewch chi o hyd i unrhyw rai eraill.*

  *Park Insurance*

  *Peacock Insurance*